

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO, A SICRWYDD RISG  
(ARAC) FESTIVAL 2022 LTD TRWY GYNHADLEDD FIDEO DYDD MERCHER 05  
HYDREF 2022, 14:00 – 15:30**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")  
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU")

**Yn bresennol:**

Faraz Tasnim (FT)  
Liam Hannaway (LH)  
Roger Lewis (RL)

Cadeirydd ARAC, Cyfarwyddwr Anweithredol  
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon  
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru

**Yn arsylwi:**

Greg Wilson (GW)  
Daniel Coles (DC)

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a  
Chwaraeon ("DCMS")  
PwC  
PwC

Adam Richards (AR)  
Alison Breadon (AB)

**Hefyd yn bresennol:**

Phil Batty (PB)  
Caroline McGrory (CMcG)  
David Grady (DG)  
Sarah Tromans (ST)  
Jack Spooner (JS)  
Ruth Marshall (RM)  
Lucy Bailey (LB)  
John Darnbrook (JD)  
Sarab Hair (SH)  
Laura O'Flynn (LO'F)

Prif Swyddog Gweithredol  
Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni  
Prif Swyddog Ariannol  
Cyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol a Rheoli Contractau  
Uwch Reolwr Cyllid  
Pennaeth PMO a Sicrwydd  
Cyfarwyddwr Prosiect  
Pennaeth Integreiddio Busnes  
Cydylynydd Gweithrediadau Corfforaethol  
Pennaeth Llywodraethu a Diddymu (Cofnodwr)

**40/22 Croeso a diben y cyfarfod**

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda.  
Cafwyd ymddiheuriadau gan Amali de Alwis MBE.

**41/22 Cymeradwyo'r cofnodion a materion yn codi**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion yn codi a nododd nad oedd unrhyw gamau yn weddill.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 03 Awst 2022 yn gofnod cywir a bydd yn cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

**42/22 Diweddariad Gweithredol**

Nododd PB ei bod hi'n 8 diwrnod gwaith ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd heb ddim llawer o newidiadau allweddol ers papur y Diweddariad Gweithredol hwnnw. Amlygwyd bod y comisiynau i gyd bellach yn fyw, a byddai amser yn cael ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar optimeiddio i sicrhau bod y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu bodloni, yn enwedig ar dechnoleg ddigidol a dysgu a chyfranogi.

Mae'r rhaglen werthuso yn cael ei chyflwyno ar amserlen gyflymach ac mae'n faes lle ceir risg o ran cyflawni. Mae cymhlethdod cael mewnbwn gan bob un o'r 17 grŵp o randdeiliaid yn her. Cytunodd y Pwyllgor i barhau i adolygu risg gwerthuso

amserlenni ond nododd fod cynnwys gwerthuso yn fater i'r Bwrdd Llawn.

Gofynnodd ARAC am gadarnhad bod dadansoddiad ansoddol ar y trywydd iawn. Cadarnhaodd PB fod asiantaeth arbenigol ansoddol yn cyflawni'r cwmpas gwerthuso y cytunwyd arno.

Trodd y Cadeirydd at y NAO i grybwyll yr ohebiaeth ddiweddar oddi wrth Bwyllgor Dethol y DCMS i Reolwr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).

Cadarnhaodd GW fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cael y llythyr a'i fod wedi cytuno i gynnal adolygiad. Amlinellodd GW y meysydd dros dro y byddai'r adolygiad yn eu cwmpasu ac y byddai cynrychiolydd annibynnol o'r NAO yn arwain y gwaith hwn.

Trafodwyd y byddai'r Pwyllgor Dethol yn debygol o alw ar UNBOXED.

Cynigiodd yr ARAC ei gefnogaeth lawn i waith yr NAO ar unrhyw beth sydd ei angen.

#### **43/22 Diweddariad ar yr Adroddiad Rheoli Risg a Phortffolio**

Ymunodd CMcG, JS a LB â'r cyfarfod.

Fframiodd RM y papur (a dderbyniwyd yn ddi-gwestiwn) ac amlinellodd y newidiadau i sefyllfa'r Portffolio Rheoli Risg, gan ddarparu mwy o wybodaeth yn benodol am y pum risg â sgôr goch. Nodwyd hefyd fod risgiau blaenorol o ganlyniad i'r cyfnod galaru a bod y risgiau bellach yn ôl ar y trywydd iawn.

Amlinellodd PB y gwaith presennol sy'n cael ei wneud ar ddadansoddi cost a budd y rhaglen er mwyn bod yn barod ar gyfer y gwerthusiad i fodelu newidiadau o'u cymharu â'r model economaidd cychwynnol wrth i'r rhaglen bontio i ddata meintiol gwirioneddol y rhaglen. Mae KPMG yn rhan o'r gwaith hwn, felly hefyd y DCMS.

Trafododd ARAC effaith y sylw diweddar a welwyd mewn cysylltiad â'r ohebiaeth gan Bwyllgor Dethol y DCMS, darpar adroddiad NAO a'r data anghywir ar gynulleidfaoedd byw a oedd yn cael ei gyflwyno yn y cyfryngau. Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y proffil risg uwch ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd o ganlyniad i hyn.

Cadarnhaodd PB fod y data ar ymgysylltu â'r gynulleidfa a adroddwyd yn y dangosfwrdd misol yn cefnogi'r casgliad bod tystiolaeth gref o ymgysylltu cynyddol parhaus â'r rhaglen wrth i weithgaredd cyflawni barhau. Nododd y Pwyllgor y perfformiad a'r cynnydd cadarnhaol ond bod rhaid monitro'r risg hon yn fanwl yn y cyfnod olaf hwn o gyflawni

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Tîm Gweithredol yn teimlo'n gyfforddus bod yr holl adnodd yn ei le ar gyfer yr wythnosau nesaf. Teimlai PB ei bod yn parhau i fod yn risg goch o ystyried bod cadw'r gweithlu yn broblem parhaus yn ystod cyfnod cau rhaglen sy'n gyfyngedig o ran amser.

Mae'r Uwch Dîm Arwain yn parhau i ystyried camau lliniaru i gefnogi momentwm.

Dywedodd DG fod cydweithwyr yn cael eu hannog yn weithredol i gymryd gwyliau blynyddol sy'n weddill i gefnogi eu llesiant. Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu'r Polisi ar sail eithriad yn unig.

Diolchodd y Pwyllgor i bob un o dîm UNBOXED am y cyfraniadau a'r ymdrech hyd yma.

Nododd ARAC gynnwys y papur.

#### **44/22 Diweddariad Archwilio Mewnol**

Fframiodd AR y papur (a dderbyniwyd yn ddi-gwestiwn). Dywedodd AR fod y tri adolygiad olaf o'r cynllun oes cyffredinol; diddymu, cau comisiwn a gwerthuso comisiynau yn dirwyn i ben. Roedd AR wedi darparu camau gweithredu yn ystod y broses i lywio cynllunio amser real ac felly byddai'r papur a gynlluniwyd yng nghyfarfod ARAC ym mis Tachwedd yn ei hanfod yn bapur canlyniadau gydag unrhyw risgiau gweddilliol yn cael eu nodi. Nid oes camau gweithredu'n agored ac ni ddisgwylir camau newydd o'r adolygiadau terfynol gan eu bod eisoes wedi'u cwblhau.

Gofynnodd LH am gadarnhad nad oedd unrhyw feysydd o bryder yn weddill o unrhyw Archwilio Mewnol neu ymarferion Sicrwydd Rheoli Gweithredol blaenorol. Cadarnhaodd PB ac AR mai dyna oedd y sefyllfa.

#### **45/22 Perfformiad Ariannol gan gynnwys Diweddariad ar yr Arian wrth Gefn ym mis Awst 2022**

Fframiodd JS y papur (a dderbyniwyd yn ddi-gwestiwn). Roedd y papur yn canolbwyntio ar yr adolygiad ariannol a'r gyllideb oes ddiweddaraf 3.0.

Dadansoddodd y Pwyllgor y proffil gwario yng nghyd-destun y cyfnod o gyflwyno a holodd am y sefyllfa cost-i-gwblhau.

Rhoddodd y Weithrediaeth ddiweddariad ar weithgaredd parhaus yn ystod cyfnod olaf cyflawni byw a'r ymrwymadau a wnaed o fewn y dyraniadau cyllideb cymeradwy.

Dywedodd JS y bydd y Pwyllgor Gwaith yn asesu sefyllfa hyblygrwydd y Gyllideb wedi'i diweddarau yn y mis i ddod.

Holodd y Pwyllgor am lefel y ddarpariaeth ariannol oedd ei hangen ar gyfer y datodiad. Rhoddodd DG asesiad cynnar o hyn a chytunodd i adolygu gyda JS a PwC, o ystyried maint y Rhaglen ac roedd yn teimlo bod gweithgaredd UNBOXED yn weithgaredd risg is o'i gymharu â'r OC.

Croesawodd yr ARAC gadarnhad bod y rhaglen yn parhau ar y trywydd iawn i gael ei chyflawni o fewn yr amlen gyllidebol wreiddiol a ddyrannwyd ar gyfer UNBOXED.

Nododd ARAC gynnwys y papur.

#### **46/22 Diweddariad ar Ddiddymu**

Fframiodd LO'F y papur (a dderbyniwyd yn ddi-gwestiwn) a chyfeiriodd at statws RAG y diddymiad sydd mewn coch ar hyn o bryd yn seiliedig ar y fframiau amser, yn enwedig o ystyried pa mor agos y mae'r gwaith cyflawni'r rhaglen a dyddiadau terfynu'r Cytundebau Comisiynu Llawn.

Aeth LO'F drwy'r mesurau lliniaru sydd ar waith i gefnogi'r amserlen a lleihau'r risg hon i oren yn y mis i ddod. Rhoddodd PB fwy o wybodaeth am gontractau'r comisiwn a rhwymedigaethau cyfreithiol i gau ym mis Rhagfyr.

Soniodd DC y cafwyd cyflwyniad gan ddatodwyr PwC yn y Bwrdd diwethaf a gofynnodd i'r Pwyllgor a oedden nhw'n teimlo eu bod yn deall eu gofynion. Roedd y Pwyllgor i gyd yn teimlo bod y Bwrdd yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn yn ystod y cyfnod hwn ac roeddent yn fodlon â hyn. Atgoffodd y Cadeirydd DC fod gweithred

wedi ei chodi i ganfod mwy am yr yswiriant indemniad ar gyfarwyddwyr yn ystod y datodiad.

Nododd yr ARAC gynnwys y papur a gofynnodd i'w gwerthfawrogiad gael ei gyfleu i'r gweithgor am eu hymdrechion sylweddol ar hyn hyd yma.

## **47/22 Unrhyw Fusnes Arall**

Ni chodwyd unrhyw eitemau 'Unrhyw Fusnes Arall'.

### **Diwedd y Cyfarfod**

Daeth y cyfarfod i ben am 15:00. Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf yw 15 Tachwedd, yn rhithwir.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:

Cyfarwyddwyr ARAC

Arsylwyr ARAC

Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd: 26 Hydref 2022

Dyddiad dychwelwyd at y Gweinyddwr: 27 Hydref 2022

Dyddiad dosbarthu: 15 Tachwedd 2022